

Fforwm Mynediad Lleol Sir Gaerfyrddin

Dydd Iau 20^{fed} Tachwedd 2014

a gynhaliwyd yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin, Tre Ioan am 6pm

Yn bresennol:

Jonathan Tudor (JT) - Ysgrifennydd

Yr Aelodau:

Caroline Evans (CE)
Glyn Evans (GE)
Keith Morgan (KM)
Eric Davies (ED)
Jillie Gardiner (JG)
David Stacey (DS)
Llew Thomas (LT)
Rosemary Jones (RJ)

Ymgynghorwyr/Sylwedyddion/Siaradwyr/Y Cyhoedd

Marie George (MG) - Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC)
Lowri Jones (LJ) – Uwch-gynorthwy-ydd Gwybodaeth i Dwristiaid Cyngor Sir
Caerfyrddin (CSC)
Geoff Williams (GW) – Y Cerddwyr

Ymddiheuriadau (Aelodau)

Karen Burch (KB) – Cadeirydd
Chris Rankin (CR)
Ed Percy (EP)
Catherine Nakielny (CN)
Eric Jones (EJ)
Mark Hadley (MH) - Is-gadeirydd

Ymddiheuriadau (Ymgynghorwyr)

Y Cyng. Deryk Cundy (DC) - Cadeirydd y
Pwyllgor Craffu - Cymunedau CSC
Rory Dickinson (RD) – Rheolwr Cefn
Gwlad a'r Arfordir CSC
Y Cyng. Meryl Gravell - Aelod o Fwrdd
Gweithredol CSC
Phil Stone – CNC
Ceri Daugherty (CD) – CNC

	Y CAM GWEITHREDU
Eitem 1 Croeso – Estynnodd JT groeso i bawb i'r cyfarfod.	
Eitem 2 Ymddiheuriadau - Cyflwynwyd ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd.	
Eitem 3 Ystyried/Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod ar 21^{ain} Awst 2014 Cafodd y cofnodion eu gwirio a'u cymeradwyo.	
Eitem 4 Materion yn Codi o Gofnodion y Cyfarfod ar 21^{ain} Awst 2014 <ul style="list-style-type: none">• Llwybr Beicio Dyffryn Aman – Dywedodd KB fod problem â phont ar ran Castell-nedd Port Talbot o'r llwybr.• Prosiect i Gysylltu Fferm Wynt Brechfa – Soniodd JT am ymgynghoriad cyhoeddus Western Power Distribution, a oedd yn dod i ben ar 16^{eg} Ionawr 2015, ynghylch cynigion y cwmni. Gallai aelodau'r Fforwm Mynediad Lleol ymateb yn unigol neu anfon eu hymatebion ato ef i'w crynhoi.	JT

<p>Eitem 5 Cyfnod y Fforwm Mynediad Lleol</p> <p>Cadarnhaodd JT fod cyfnod tair blynedd y Fforwm Mynediad Lleol yn dod i ben ar 7^{fed} Rhagfyr 2014. Roedd gwahoddiad i'r aelodau presennol ailymuno â'r Fforwm Mynediad Lleol wedi'i ddsbarthu.</p> <p>Byddai hysbysiad cyhoeddus i wahodd ceisiadau am aelodau newydd yn cael ei roi yn y wasg leol yn unol â'r rheoliadau perthnasol. Roedd JT, MH a KB wedi darparu deunydd ar gyfer datganiad i'r wasg i un o swyddogion y wasg y Cyngor.</p> <p>Roedd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i'r Fforwm Mynediad Lleol gael o leiaf 10 aelod a dim mwy nag 20, yn ogystal â Chadeirydd, Is-gadeirydd ac Ysgrifennydd.</p> <p>Os oedd gan yr aelodau unrhyw awgrymiadau ynghylch ymgeiswyr posibl, byddai JT yn dosbarthu ffurflenni cais a dogfennau cysylltiedig.</p> <p>Byddai cyfnod newydd y Fforwm Mynediad Lleol yn dechrau ar ddyddiad y cyfarfod nesaf pryd y byddai angen penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd.</p>	<p>PAWB</p>
<p>Eitem 6 Gorchmynion Rheoli Cŵn</p> <p>Cafodd y wybodaeth ddiweddaraf am yr uchod ei rhoi ar ffurf neges e-bost gan Michael Roberts, Swyddog Polisi a Strategaeth Gorfodi Materion Amgylcheddol Cyngor Sir Caerfyrddin. Yn gwyno roedd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 wedi cyflwyno trefn reoli newydd ac wedi diddymu'r ddeddfwriaeth flaenorol. Roedd y Cyngor yn aros am yr offerynnau statudol perthnasol ac am gyngor cyfreithiol ynghylch sut y gellid rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith. Roedd Michael Roberts wedi cynnig dod i un o gyfarfodydd y Fforwm Mynediad Lleol yn y dyfodol er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynghylch hyd a lled unrhyw orchmynion yn y dyfodol ac ymgynghoriad diweddar Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch Strategaeth Mynd â'r Ci am Dro.</p>	
<p>Eitem 7 Mapiau Mynediad Agored</p> <p>Dywedodd JT fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cwblhau adolygiad o Dir Mynediad Agored a bod y mapiau mynediad terfynol wedi eu cyhoeddi ar 24^{ain} Medi 2014. Roedd copïau papur ar gael yn y cyfarfod a hefyd roedd manylion ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>Dywedwyd bod y newidiadau yn Sir Gaerfyrddin yn eithaf cyfyngedig ond bod 60 hectar ychwanegol o dir mynediad agored ar Fynydd Pencarreg.</p>	
<p>Eitem 8 Y Newyddion Cyffredinol Diweddaraf – JT</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Polisi Amaethyddol Cyffredinol – Ymateb i'r Ymgynghoriad ynghylch Trawsgydymffurfio - Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynnig ar gyfer y dyfodol sef y dylid cynnwys hawliau tramwy cyhoeddus o dan drawsgydymffurfio, fel roeddent yn Lloegr lle roeddent yn destun y gofyniad i gadw'r tir mewn Cyflwr Da yn Amaethyddol ac yn Amgylcheddol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn anghytuno â'r cynnig. Yn ôl ymateb Llywodraeth Cymru: 	

<p><i>'Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu'r cyfyngiadau mapio ar ddynodi Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn nodwedd o'r dirwedd (yn cynnwys gofynion i beidio â rhwystro na gwyro). Pan fydd y cyfyngiadau hyn wedi cael eu hunioni, bydd addasiad i'r gofynion Trawsgydymffurfio o dan gyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da (GAEC) 7 gan gynnwys y gofyniad Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael ei ystyried, yn amodol ar ymgynghori pellach â rhanddeiliaid.'</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Diweddaraf am Gynnal a Chadw – Dosbarthodd JT daenlen gan y Tîm Gweithrediadau Cefn Gwlad a restrai'r llwybrau yr oedd gwaith wedi'i wneud arnynt. • Llwybr Illtyd Sant – Roedd menter Cerddwyr Abertawe yn parhau ac roedd cyfarfodydd yr oedd cynrychiolwyr o'r awdurdodau lleol perthnasol yn rhan ohonynt yn dal i fynd rhagddynt. 	
<p>Eitem 9 Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> • Prosiect Merlota Ceredigion – cyfeiriwyd at erthygl yn y Carmarthen Journal am y prosiect hwn. Cafodd pwynt ei wneud ynghylch prinder llwybrau ceffylau yn Sir Gaerfyrddin. • Twristiaeth – cyfeiriodd Lowri Jones at lwyddiant y fenter 'Croeso i Gerddwyr' ac roedd Llandeilo a Llanymddyfri yn drefi 'Croeso i Gerddwyr' swyddogol yn Sir Gaerfyrddin. 	
<p>Eitem 11 Dyddiad/Lleoliad y Cyfarfodydd Nesaf</p> <p>Byddai dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn nesaf yn cael eu cadarnhau maes o law.</p>	